Hawdd ei ddeall

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu




**Nodiadau o gyfarfod rhif 11 ar 15 Ionawr 2025. Roedd y cyfarfod ar Zoom.**



## Pobl a ddaeth i'r cyfarfod

- **Sioned Williams AS** – Aelod o'r Senedd, Cadeirydd
- **Samatha Williams** – Anabledd Dysgu Cymru, Cyd-ysgrifennydd
- **Mark Isherwood AS** – Aelod o'r Senedd
- **Alexander Owen** – Staff y Senedd
- **Alison Line**
- **Daniel Bray**
- **Danielle Richards** – Cyngor Abertawe
- **Darren Smith** – Gofalwr
- **Elaine Derrick** - Rhiant
- **Emma Scott-Davies** – Ffrindiau Gig Cymru
- **Grace Coppock** – Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan
- **Helen Delargy** – Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr
- **Jackie Prosser** – Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr
- **Janis Griffiths** - Ffederasiwn Rhieni
- **Julie Clark-Harrison** – Grŵp Pobl

- **Kelly Stuart** – Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
- **Louise Peck** – Eiriolaeth Eich Llais
- **Mark Griffiths** – Mirus
- **Phillipa Gould** – Dosh
- **Rus Kennedy** - Dimensions
- **Sean McDonnell** – Grŵp Pobl
- **Simon Richards** – Pobl yn Gyntaf Caerdydd
- **Simon Rose** – Anabledd Dysgu Cymru
- **Sion Jones** – Mencap Cymru
- **Tracy McCillen** – Sport Excel UK
- **Wayne Crocker** – Mencap Cymru
- **Zoe Richards** – Anabledd Dysgu Cymru



## Pobl a ddywedodd na allent ddod i'r cyfarfod

- **Sara Pickard** – Mencap Cymru, Cyd-ysgrifennydd
- **Julian Hallett** – Cymdeithas Syndrom Down

## Gwybodaeth am y ddogfen hon




Dyma fersiwn hawdd ei ddarllen. Mae'r geiriau a'u hystyr yn hawdd eu darllen a'u deall.



Gall geiriau sydd mewn **ysgrifen glas trwm** fod yn anodd eu deall. Maent wedi eu hesbonio mewn blwch o dan y gair. Gallwch weld ystyr yr holl eiriau mewn **glas** ar **dudalen 14**.

# 1. Croeso a chyflwyniadau



Mae **Sioned Wiliams** yn Aelod o'r Senedd ac yn **Gadeirydd** y Grŵp Trawsbleidiol.

**Cadeirydd** y grŵp yw'r unigolyn sy'n gyfrifol am y cyfarfodydd.

Croesawodd Sioned bawb i'r cyfarfod.

# 2. Cyflwyniad am yr ymgyrch cymdeithas heb arian



Soniodd Sion Jones o Mencap Cymru a'r rhiant Elaine Derrick am yr ymgyrch cymdeithas heb arian.



Dywedodd Sion fod rhai pobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd wedi dweud wrth Mencap am broblemau oedd ganddyn nhw wrth geisio talu ag arian parod mewn siopau a gwasanaethau.



Mae mwy a mwy o leoedd wedi rhoi'r gorau i gymryd arian parod felly **dim ond** gyda cherdyn y gallwch dalu.




Gall hyn fod yn broblem i bobl ag anabledd dysgu nad oes ganddynt gyfrif banc neu sy'n ei chael hi'n rhy anodd talu â cherdyn.




Mae'n golygu na all pobl na allant dalu â cherdyn fynd i rai lleoedd na phrynu'r pethau y maent eu heisiau – er enghraifft, tocynnau ar gyfer sioe neu ddiod ar y trên.



Gall godi cywilydd mawr ar bobl pan fyddant yn ceisio talu am rywbeth gydag arian parod ond cânt wybod bod yn rhaid iddynt dalu â cherdyn.



Dywedodd Elaine Derrick fod ei mab Niall yn awtistig a bod ganddo anabledd dysgu.



Mae Niall yn deall sut i gynilo a defnyddio arian parod ond ni all ddefnyddio cerdyn banc i dalu am bethau.



Pan aeth i Pizza Hut yng Nghaerdydd am bryd o fwyd gyda'i ffrindiau, dywedwyd wrthynt na allent dalu ag arian parod felly na allent fwyta yno.



Roedd hyn yn annymunol ac yn siomedig iawn i Niall a'i ffrindiau.




Roedd Elaine yn grac iawn am hyn gan ei fod yn atal Niall rhag bod yn annibynnol. Mae'n ei atal rhag cael dewis a rheolaeth yn ei fywyd.

Siaradodd Elaine â Mencap Cymru am yr hyn a ddigwyddodd i Niall.



Penderfynodd Mencap Cymru wneud deiseb yn gofyn i Lywodraeth Cymru ei gwneud yn haws i bobl dalu ag arian parod.




Arwyddodd llawer o bobl y ddeiseb a phenderfynodd Pwyllgor Deisebau'r Senedd ymchwilio i'r broblem hon.



Clywodd y Pwyllgor gan bobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd am y problemau sydd ganddynt wrth geisio talu ag arian parod.




Fe wnaethon nhw ysgrifennu adroddiad am yr hyn a ddywedodd pobl wrthynt. Roedd gan yr adroddiad syniadau ar sut y gallai Llywodraeth Cymru wella'r broblem.



Y syniad cyntaf a phwysicaf oedd y dylai pob sefydliad a gwasanaeth sy'n cael arian gan Lywodraeth Cymru adael i bobl dalu ag arian parod.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r adroddiad ond fe wrthodon nhw'r rhan fwyaf o'r syniadau.



Cafwyd **dadl** yn y Senedd am y ddeiseb a'r adroddiad.

**Dadl** yw pan fydd pobl â syniadau gwahanol yn siarad am rywbeth. Maent yn ceisio gwneud i eraill ddeall eu safbwynt.



Yn y ddadl, dywedodd Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol ei bod yn credu y **gallai** Llywodraeth Cymru wneud mwy i sicrhau bod pobl yn gallu talu ag arian parod.



Dywedodd y byddai'n cyfarfod â Mencap Cymru a'r teuluoedd i siarad am sut y gellid gwneud hyn.




Dywedodd Sion ei fod yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn edrych ar ffyrdd o sicrhau bod y sefydliadau a'r gwasanaethau y maen nhw'n rhoi arian iddynt yn gadael i bobl dalu ag arian parod.



Dywedodd fod Pwyllgor yn Senedd y DU hefyd yn edrych ar y broblem hon.

# 3. Cyflwyniad am effaith methu â thalu ag arian parod ar bobl ag anabledd dysgu



Soniodd Simon Richards o Pobl yn Gyntaf Caerdydd pam ei bod yn bwysig i bobl allu talu ag arian parod os oes angen.



Siaradodd Simon ag ITV Cymru y llynedd am y problemau y mae pobl ag anabledd dysgu yn eu cael pan na allant dalu ag arian parod.



Nid oes gan lawer o bobl y mae'n eu hadnabod sy'n byw mewn tai â chymorth fel ef gyfrifon banc neu ni allant ddefnyddio cardiau banc.



Mae hyn yn golygu na allant brynu pethau ar-lein fel tocynnau, dillad neu fwyd.



Mae hefyd yn golygu, os ydyn nhw'n mynd i rywle fel bar, bwyty neu siop nad yw'n cymryd arian parod, gall fod yn rhwystredig ac yn ofidus iawn.



Dywedodd Simon fod rhai lleoedd o hyd sy'n cymryd arian parod.



Dylem roi gwybod i bawb ble mae'r lleoedd hyn fel bod gan bobl sydd angen talu arian parod fwy o ddewis.

## 4. Cwestiynau a syniadau



Ar ôl y cyflwyniad, gofynnodd rhai pobl gwestiynau, a rhannodd rhai eu syniadau.




Dywedodd Sioned ei bod wedi cyfarfod â staff Llywodraeth Cymru i siarad am broblemau gyda Trafnidiaeth Cymru, fel methu â thalu ag arian parod yn y peiriant tocynnau neu am ddiod ar y trên.



Dywedodd Wayne Crocker o Mencap Cymru ei fod wedi siarad â'r Gweinidog Trafnidiaeth Ken Skates am y broblem hon.




Dywedodd Wayne hefyd fod lleoedd fel amgueddfeydd neu theatrau weithiau'n dweud eu bod yn cymryd arian parod ond eu bod yn talu cwmni gwahanol i redeg eu caffis **nad ydynt** yn cymryd arian parod. Gelwir hyn **is-gontractio**.



Mae Mencap Cymru yn ceisio cael rhywfaint o arian i roi gwybod i bobl am y lleoedd sy'n cymryd arian parod drwy roi sticeri yn y ffenestr.



Bydd Sioned yn ysgrifennu at Jane Hutt a Ken Skates i ofyn beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud am y broblem hon a pha mor hir y bydd yn ei gymryd.

# 5. Unrhyw fater arall a syniadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol

Mae Llais eisiau gwybod beth yw barn pobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd am wasanaethau anableddau dysgu yng ngorllewin Cymru.


Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

[Gallwch lenwi arolwg hawdd ei ddeall Llais Gorllewin Cymru yma.]()

Mae Llywodraeth Cymru eisiau gwybod beth yw barn pobl am wasanaethau dydd yng Nghymru.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

[Gallwch ddarganfod mwy a llenwi'r arolwg hawdd ei ddeall yma.]()




Ysgrifennodd Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Etholiadol yn ôl at Sioned i ddweud y byddan nhw'n anfon llawer o wybodaeth am y newidiadau i etholiadau'r Senedd.



Dywedon nhw y byddan nhw hefyd yn siarad â gwahanol grwpiau am sut i sicrhau bod pobl yn deall y newidiadau.



Dywedodd Sioned hefyd fod criw o ymchwilwyr ym Mhrifysgol Caerdydd am ddechrau prosiect am fywydau pobl ag anabledd dysgu yng Nghymru.



Maen nhw'n ceisio cael digon o arian i sefydlu'r prosiect gyda phobl ag anabledd dysgu a gofalwyr fel ymchwilwyr.



Bydd Sioned yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn a allant helpu gydag arian ar gyfer y prosiect ymchwil.




Cynhelir cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol ar **26 Mawrth 2025** rhwng 12.15 a 1.15pm ar Zoom.




Bydd Sam Williams yn anfon y wybodaeth am sut i gadw lle ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Bydd hefyd ar wefan Anabledd Dysgu Cymru: [https://www.ldw.org.uk/cy/project/grwp-trawsbleidiol-ar-anabledd-dsygu/](https://www.ldw.org.uk/cy/project/grwp-trawsbleidiol-ar-anabledd-dsygu/)



Gofynnodd Sioned i'r grŵp e-bostio unrhyw syniadau am bethau i siarad amdanynt mewn cyfarfodydd yn y dyfodol
Sam Williams: samantha.williams@ldw.org.uk
neu Sara Pickard:
SaraE.Pickard@mencap.org.uk.




Diolchodd Sioned i Sion Jones a Simon Richards am eu cyflwyniadau.

Diolchodd hefyd i bawb am ddod i'r cyfarfod.




Gallwch ddod o hyd i holl agendâu'r Grŵp Trawsbleidiol, ynghyd â'r holl nodiadau ynghylch ei gyfarfodydd, yma:
https://www.ldw.org.uk/cy/project/grwp-trawsbleidiol-ar-anabledd-dsygu/

# Geiriau anodd

## Cadeirydd

Cadeirydd y grŵp yw'r unigolyn sy'n arwain y cyfarfodydd.

## Ysgrifennydd neu gyd-ysgrifenydd

Yr ysgrifennydd yw'r unigolyn neu'r sefydliad sy'n gyfrifol am drefnu'r grŵp. Er enghraifft, mae'n trefnu cyfarfodydd ac yn dosbarthu agendâu.

Ceir cyd-ysgrifenyddion pan fydd mwy nag un person yn rhannu rôl yr ysgrifennydd.

## Dadl

Dadl yw pan fydd pobl â syniadau gwahanol yn siarad am rywbeth. Maent yn ceisio gwneud i eraill ddeall eu safbwynt.

## Is-gontractio

Weithiau mae busnes neu sefydliad yn talu cwmni arall i wneud gwaith iddyn nhw neu redeg rhan o'u busnes. Er enghraifft, i lanhau swyddfeydd mewn banc neu redeg siop anrhegion mewn amgueddfa. Gelwir hyn yn is-gontractio.